# Ffurflen Adborth
# Feedback Form

| | |
|---|---|
| Enw'r Digwyddiad<br>Name of Event | Gwasanaethau prawf gwaed (fflebotomi) yn Llanelli<br>Digwyddiadau galw heibio BIPHd |
| Pwrpas<br>Purpose | Casglu barn pobl ar y newid i wasanaethau |
| Corff Trefnu/Contact Name<br>Organizational Body/Enw Cyswllt | BIP Hywel Dda |
| Dyddiad y Cyfarfod<br>Date of Meeting | 14.05.2024(ail ddigwyddiad galw heibio)<br>Cynrychiolwyr Llais wrth law o 14:45 – 17:30 |
| 1ew Cynrychiolydd Llais GC<br>Name of LlaisWW Representative | David Bryan / Donna Coleman / Leanda Wynn |
| Man Cyfarfod<br>Venue | Canolfan Antioch, Llanelli |

**Cefndir / Background**

O 20 Mai 2024, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau prawf gwaed ar gyfer pobl sy'n byw yn ardal Llanelli yn cael eu darparu o'r Ganolfan Brechu Dorfol yn Nafen, Llanelli.

Symud gwasanaethau prawf gwaed o Ganolfan Antioch i Ddafen yw ymateb y Bwrdd Iechyd i adborth gan gleifion sydd wedi codi pryderon am y gwasanaeth yn Llanelli. Mae cleifion wedi rhannu adborth o'r blaen ar y diffyg lleoedd parcio, lle i gleifion sy'n aros am eu hapwyntiad, a hyd y rhestr aros.

Symudiad dros dro yw symud i'r Ganolfan Brechu Dorfol yn Nafen, a bydd yr uchelgais hirdymor yn cynnwys symud y gwasanaeth i fod yn rhan o ddatblygiad Pentre Awel yn 2025.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi trefnu 2 sesiwn galw heibio ac wedi gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth gwblhau arolwg papur a/neu ar-lein erbyn 26 Mehefin 2024.

**Pwyntiau’n codi o’r cyfarfod / Points Arising from Meeting**

- Yn ystod yr amser roedd Llais yn bresennol daeth 2 aelod o'r cyhoedd i fyny.

- Soniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod 3 wedi dod i’r digwyddiad am 14:30.

- Eglurwyd yn drwyadl iddynt gan Lee (Fflebotomi) mai mesur dros dro yn unig oedd trosglwyddo gwasanaethau i Ddafen ac Ysbyty Tywysog Philip (YTP) hyd nes y byddai Pentre Awel yn weithredol, erbyn dechrau 2025 fwy na thebyg.

- Aeth ymlaen i egluro y byddai cleifion gyda cheir yn cael eu cynghori i fynd i Ddafen gan fod digon o le i barcio ceir yno tra byddai cleifion sydd angen bws yn cael eu cynghori i fynd i YTP gan ei fod yn cael ei wasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus.

- Mae astudiaeth drafnidiaeth ar y gweill i geisio gwella argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau a ariennir gan elusennau megis ceir gwledig.

- Y bwriad yw lleihau'r drefn bresennol o aros 3 wythnos am apwyntiad i 1 wythnos.

- Manteisiwyd ar y cyfle i siarad gyda'r 2 aelod o'r cyhoedd a ddywedodd fod Lee wedi mynd i'r afael â'u pryderon cychwynnol am gludiant i ac o Ddafen (soniodd un eu bod yn byw ym Mhwll ac nad oedd ganddynt fynediad i gar).

- Rydym yn cwestiynu'r angen i 8 aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod yn bresennol yn dilyn y nifer isel iawn o fynychwyr cyhoeddus yr wythnos flaenorol. Gall hyn fod o ganlyniad i ddiffyg diddordeb; roeddent yn fodlon â chwblhau'r arolygon papur neu ar-lein neu'n teimlo nad oedd y newid gwasanaeth yn galw am drafodaethau wyneb yn wyneb.

- Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i siarad a dosbarthu taflenni i'r 2 fynychwr a staff y Ganolfan am rôl Llais. Mae cyflenwad o daflenni wedi'u gadael yn y rac taflenni gwybodaeth gymunedol gyda phoster Llais wedi'i ychwanegu at y wal wybodaeth.